



Prifysgol Caerdydd

Adolygiad Sefydliadol
gan yr Asiantaeth Sicrhau
Ansawdd Addysg Uwch

Ebrill 2014

Cynnwys

Yr adolygiad yma	1
Canfyddiadau allweddol	2
Beirniadaethau ASA am Brifysgol Caerdydd	2
Nodweddion o arfer da	2
Argymhellion.....	2
Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith	3
Ynghylch Prifysgol Caerdydd	3
Esboniad o'r canfyddiadau am Brifysgol Caerdydd	5
1 Safonau academiaidd.....	5
Canlyniad.....	5
Cyflawni meincnodau cymwysterau allanol	5
Defnydd o arholwyr allanol.....	5
Asesiad a safonau	6
Gosod a chynnal safonau rhaglenni.....	7
Meincnodau pwnc	8
2 Ansawdd cyfleoedd dysgu	9
Canlyniad.....	9
Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu a dysgu.....	9
Adnoddau dysgu.....	10
Llais y myfyrwyr	10
Defnyddir gwybodaeth rheoli i wella ansawdd a safonau	11
Mynediad i'r Brifysgol	12
Cwynion ac apeliadau	12
Cyngor ac arweiniad gyrfaoedd.....	13
Cefnogi myfyrwyr anabl.....	13
Cefnogi myfyrwyr rhyngwladol	13
Cefnogi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig	14
Dysgu a ddarperir drwy drefniadau cydweithredol.....	14
Dysgu hyblyg a dosranedig ac e-ddysgu.....	15
Dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gweithle	15
Siarter y myfyrwyr	16
3 Gwybodaeth am gyfleoedd dysgu.....	16
Crynodeb	16
4 Gwelliant i gyfleoedd dysgu	18
Canlyniad.....	18
Rhestr termau.....	21

Yr adolygiad yma

Mae hwn yn adroddiad Adolygiad Sefydliadol a weithredwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) ym Mhrifysgol Caerdydd. Cafwyd yr adolygiad rhwng 31 Mawrth a 4 Ebrill 2014 ac fe'i weithredwyd gan dîm o bedwar adolygwr, fel a ganlyn:

- Yr Athro Aulay Mackenzie
- Yr Athro Peter Bush
- Yr Athro Helen Marshall
- Miss Charlotte Richer (adolygwr sy'n fyfyrwr)
- Mr Tony Platt (ysgrifennydd yr adolygiad).

Prif bwrpas yr adolygiad oedd ymchwilio'r addysg uwch a ddarperir gan Brifysgol Caerdydd a barnu a yw ei safonau a'i hansawdd academaidd yn cyflawni disgwyliadau'r DU ai peidio. Yn yr adroddiad hwn, mae tîm adolygu ASA:

- yn gwneud beirniadaethau am
 - safonau academaidd trothwy¹
 - ansawdd y cyfleoedd dysgu
 - yr wybodaeth a ddarperir am gyfleoedd dysgu
 - gwelliant i gyfleoedd dysgu
- yn rhoi sylwadau ar bwnc y thema
- yn gwneud argymhellion
- yn nodi nodweddion o arfer da
- yn cadarnhau'r camau gweithredu y mae'r sefydliad yn eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd.

Gallwch weld crynodeb o'r [canfyddiadau allweddol](#) yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 2. Rhoddwyd [esboniadau o'r canfyddiadau](#) mewn paragraffau wedi'u rhifo yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 5.

Mae gwefan ASA yn rhoi rhagor o wybodaeth [am ASA](#) a'i chenhadaeth². Mae gwybodaeth gefndir am Brifysgol Caerdydd i'w chael ar dudalen 3 yr adroddiad hwn. Mae tudalen benodol ar y wefan yn esbonio'r dull ar gyfer gwneud [Adolygiad Sefydliadol](#) o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru³ ac mae ganddi ddolenni at y llawlyfr adolygiad a dogfennau defnyddiol eraill.

¹ I gael esboniad o'r termau gwelwch y [rhestr termau](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

² www.qaa.ac.uk/aboutus/pages/default.aspx

³ www.qaa.ac.uk/institutionreports/types-of-review/pages/adolygiad-sefydliadol-cymru.aspx

Canfyddiadau allweddol

Beirniadaethau ASA am Brifysgol Caerdydd

Ffurfiodd tîm adolygu ASA y beirniadaethau dilynol am y ddarpariaeth addysg uwch ym Mhrifysgol Caerdydd

- Mae'r safonau academiaidd yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU mewn perthynas â safonau trothwy.
- Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r wybodaeth y mae'r Brifysgol yn ei chynhyrchu am gyfleoedd dysgu'n **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r gwelliant mewn cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

Nodweddion o arfer da

Canfu tîm adolygu ASA y nodweddion o **arfer da** dilynol ym Mhrifysgol Caerdydd.

- Y cyfleoedd datblygiad staff priodol, eang ac ymatebol ym meysydd dysgu ac addysgu, gan gynnwys y rheiny sydd wedi'u hymestyn i fyfyrwyr ôl-raddedig (paragraff 2.1.7).
- Gwaith y Brifysgol i gefnogi a defnyddio cyfraniadau positif y myfyrwyr wrth ddatblygu diwylliant o wella ansawdd y cyfleoedd dysgu (paragraff 2.3.4).
- Defnyddio gwybodaeth rheoli'n gynhwysfawr er mwyn cefnogi ansawdd a safonau ar bob lefel, sy'n cynnwys agweddau o welliant (paragraff 2.4.2).
- Yr arfer, ar lefel uwch rheolwyr y Brifysgol, o fonitro cynnydd strategaethau allweddol y Brifysgol gyfan yn rheolaidd ar gyfer gwella'r cyfleoedd dysgu (paragraff 4.12).

Argymhellion

Mae tîm adolygu ASA yn gwneud yr **argymhellion** dilynol i Brifysgol Caerdydd:

O ddechrau'r flwyddyn academiaidd 2014-15:

- cadw llygad ar y posibilrwydd o weld canlyniadau na fwriadwyd ym mherfformiad y myfyrwyr a dosbarthiad graddau o ganlyniad i'r cynlluniau i gynnwys modiwlau ar lefelau 5, 6 a 7 yn y blynyddoedd astudio sy'n cyfateb fel arfer â lefelau academiaidd 4, 5 a 6 (paragraff 1.1.2)
- cadw llygad barcud ar y broses o gynhyrchu canlyniadau ar gyfer myfyrwyr meddygol yn eu blwyddyn derfynol nes y bydd yn fodlon nad oes gwallau yn y system newydd ar gyfer cofnodi ac adrodd canlyniadau (paragraff 1.3.3).

O ddechrau'r flwyddyn academiaidd 2015-16:

- symud yn gyflym i sicrhau gweithrediad cynhwysfawr y fframwaith Materion Aseu ar draws y ddarpariaeth i gyd (paragraff 1.3.1).

Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith

Mae tîm adolygu ASA yn **cadarnhau** r camau gweithredu dilynol y mae Prifysgol Caerdydd yn eu cymryd yn barod i sicrhau safonau academiaidd a/neu i wella'r ddarpariaeth addysgol y mae'n ei chynnig i'w myfyrwyr.

- Penderfyniad y Brifysgol i gynhyrchu adolygiad blynyddol o welliant o 2014-15 (paragraff 4.11).

Gallwch weld esboniad pellach o'r canfyddiadau allweddol yn y disgrifiad gweithredol a'r llawlyfr sydd ar gael ar wefan ASA, yn esbonio'r broses [Adolygiad Sefydliadol yng Nghymru](#).⁴

Ynghylch Prifysgol Caerdydd

Cenhadaeth Prifysgol Caerdydd yw creu a rhannu gwybodaeth, ac addysgu er budd pawb. Uchelgais y Brifysgol yw bod yn brifysgol ragorol o ran ei hymchwil, ardderchog o ran ei haddysgu, sy'n arwain y byd, wedi'i gyrru gan greadigrwydd a chwilfrydedd, sy'n cyflawni ei rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, Cymru a'r byd.

Sefydlwyd y Brifysgol yn 1883 ac mae wedi bodoli ar ei ffurf bresennol ers 2005, yn dilyn uno Prifysgol Cymru, Caerdydd a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru. Yn 2005, rhoddwyd y teitl 'Prifysgol Caerdydd' iddi a chaniatawyd Siarter Atodol newydd iddi, gan sefydlu Prifysgol Caerdydd yn ffurfiol fel Prifysgol yn ei rhinwedd ei hun sy'n gwbl annibynnol i Brifysgol Cymru. Prifysgol Caerdydd yw'r unig aelod yng Nghymru o'r Grŵp Russell o brifysgolion ymchwil dwys.

Mae'r Brifysgol yn sefydliad sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil. Mae'n cynnig cyfleoedd addysgol mewn ystod eang o ddisgyblaethau a phroffesiynau. Mae mwy na 21,000 o fyfyrwyr israddedig a bron i 7,500 o fyfyrwyr ôl-raddedig yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd, wedi eu cefnogi gan fwy na 6,000 o staff y mae rhyw 3,000 ohonynt yn staff academiaidd sy'n gwneud gwaith addysgu ac/neu ymchwil.

Ers sesiwn academiaidd 2012-2013, gwneir gweithgareddau academiaidd drwy dri Choleg (Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol; Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Gwyddorau Bywyd; Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg) sy'n cynnwys cyfanswm o 26 Ysgol a Choleg Graddedigion y Brifysgol. Y Cyngor yw awdurdod llywodraethu'r Brifysgol, a'r Senedd yw'r corff pennaf o ran gwneud penderfyniadau academiaidd.

Mae nifer o newidiadau trefniadol arwyddocaol wedi digwydd ers 2008. Ym mis Ionawr 2012, penodwyd Cadeirydd newydd y Cyngor, ac ym mis Medi 2012 cyrhaeddodd Llywydd newydd ac Is-Ganghellor newydd.

Sefydlwyd swyddi Dirprwy Is-Ganghellor i arwain y tri Choleg ac i ymdrin â'r meysydd thematig Ymchwil, Arloesedd a Menter, Profiad y Myfyrwyr a Safonau Academiaidd, a Rhyngwladol ac Ymgysylltu. Mae gan bob Coleg Ddeoniaid ar gyfer Addysg a Myfyrwyr, ar gyfer Ymchwil, Arloesedd a Menter, ac ar gyfer Gweithgareddau Rhyngwladol. Mae Coleg Graddedigion y Brifysgol (UGC) yn ganolfan hyfforddi a datblygu sgiliau. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol mewn cyfnod o newid wrth i'r drefniadaeth strwythurol newydd ymsefydlu.

Mae'r Brifysgol o'r farn bod ei blaenoriaethau strategol uniongyrchol yn cwrdd ag anghenion newidiol y myfyrwyr yn ogystal â disgygliadau'r rhanddeiliaid, gan wella cysondeb y profiad dysgu, ac adeiladu ar gryfderau presennol y bartneriaeth â'r myfyrwyr. Ystyrir bod sicrhau safonau a rhagoroldeb ei darpariaeth yn hanfodol yn ystod y cyfnod hwn o drawsnewidiad

⁴ www.qaa.ac.uk/cy/ReviewsAndReports/Pages/IR-Wales.aspx

strwythurol sylweddol. Mae'r Brifysgol wedi sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol i fonitro cynnydd.

Mae'r Brifysgol yn hollol ymwybodol o'i chyfrifoldebau ynglŷn â hybu'r iaith Gymraeg ac mae'n gweithio i adeiladu a chynnal cyfleoedd Cymraeg i'w myfyrwyr. Mae'n cyfranogi yng ngweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae wedi adeiladu perthynas dda gyda'r Coleg. Y Brifysgol yw unig ddarparwr nifer o feysydd disgyblaeth, ac mae'n awyddus i ddatblygu cefnogaeth i'r gweithlu Cymraeg yn y meysydd hyn.

Mae gan y Brifysgol 22 o drefniadau cydweithredol gyda phartneriaid rhyngwladol i drosglwyddo, dilysu, etholfreinio neu gynnig dyfarniadau lluosog. Mae amrediad eang o gytundebau astudio dramor, 198 ar hyn o bryd, sydd wedi'u datblygu yn unol â gofynion y rhaglenni i raddau mawr. Mae'r Brifysgol yn aelod o chwe phartneriaeth hyfforddiant doethurol.

Un o amcanion strategol y Brifysgol yw datblygu cydweithio ffurfiol â phartneriaid dethol yn y DU a thramor ac, yn ddiweddar, mae wedi sefydlu'r consortiwm 'Great Western Four' (GW4) gyda phrifysgolion Caerfaddon, Bryste a Chaerwysg. Mae'r Brifysgol wedi ymateb hefyd i fentrau allweddol Llywodraeth Cymru, er enghraifft, y rhaglen gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol, sy'n uno â phrifysgolion Bangor, Aberystwyth a'r Athrofa Addysg, Prifysgol Llundain fel partneriaid, i ddarparu sgiliau addysgu lefel uwch i athrawon ledled Cymru sydd wedi cymhwysu'n ddiweddar.

Esboniad o'r canfyddiadau am Brifysgol Caerdydd

Mae'r adran hon yn esbonio canfyddiadau allweddol yr adolygiad yn fwy manwl.⁵

Mae termau a allai fod yn anghyfarwydd i rai darllenwyr wedi'u cynnwys mewn [rhestr termau byr](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae [rhestr termau](#)⁶ llawnach ar gael ar wefan ASA, a gallwch weld diffiniadau ffurfiol o dermau penodol yn y disgrifiad gweithredol a'r llawlyfr ar gyfer y [dull adolygu](#), ac hefyd ar wefan ASA.⁷

1 Safonau academiaidd

Canlyniad

Mae'r safonau academiaidd ym Mhrifysgol Caerdydd yn **cyflawni disgwyliadau'r DU** mewn perthynas â safonau trothwy. Mae rhesymau'r tîm am y feirniadaeth yma i'w gweld isod.

Cyflawni meincnodau cymwysterau allanol

1.1 Mae rhaglenni astudio'r Brifysgol wedi'u halinio â'r lefelau sydd wedi'u disgrifio yn y *Fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ). Ystyrir amrediad o bwyntiau cyfeirio allanol eraill hefyd wrth gynllunio cyrsiau. Mae'r rhain yn cynnwys *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC), gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRB) a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r Brifysgol yn darparu arweiniad ar gynllunio rhaglenni a natur a maint yr asesiad. Mae staff yn cael y rhain yn ddefnyddiol wrth esbonio sut y defnyddir pwyntiau cyfeirio allanol wrth ddatblygu a monitro rhaglenni. Mae esiamplau o ddogfennau cynnig rhaglenni a welwyd gan y tîm yn dangos bod pwyntiau cyfeirio allanol yn cael eu defnyddio'n briodol wrth gymeradwyo rhaglenni.

1.1.1 Mae adroddiadau arholwyr allanol a welwyd gan y tîm yn cadarnhau bod y canlyniadau dysgu a lefelau'r cyflawniad academiaidd a geir gan fyfyrwyr yn gyson â'r rheiny mewn sefydliadau tebyg.

1.1.2 Nododd y tîm bod cynlluniau i osod modiwlau ar lefelau 5, 6 a 7 i mewn i flynyddoedd astudio sy'n cyfateb â lefelau 4, 5 a 6. Mae'r FHEQ a chynllun modiwlauidd y Brifysgol yn caniatáu hyn, a chafodd rheolau'r Brifysgol ar gyfer dosbarthiad graddau eu hadolygu i roi ystyriaeth i'r datblygiad yma. Fodd bynnag, mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Brifysgol yn cadw llygad ar y posibilrwydd o weld canlyniadau na fwriadwyd ym mherfformiad y myfyrwyr a dosbarthiad graddau o ganlyniad i'r cynlluniau i gynnwys modiwlau ar lefelau 5, 6 a 7 yn y blynyddoedd astudio sy'n cyfateb fel arfer â lefelau academiaidd 4, 5 a 6.

Defnydd o arholwyr allanol

1.2 Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd gofalus o arholwyr allanol. Mae'r prosesau a'r trefniadau ar gyfer arholi allanol yn glir a chynhwysfawr ac mae adroddiadau arholwyr allanol yn derbyn ystyriaeth ddifrifol ar bob lefel yn y Brifysgol.

1.2.1 Mae trefniadau ar gyfer penodi arholwyr allanol wedi'u disgrifio yn y Llawlyfr Rheoliadau Academiaidd 2013-2014. Mae'r Pennaeth Ysgol perthnasol yn gwneud enwebiadau ac mae'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd yn cymeradwyo'r rhain. Mae'r penodiadau am

⁵ Ni chyhoeddir y corff llawn o dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiad. Ond mae ar gael os gofynnwch amdano i'w ymchwilio. Cysylltwch â Grŵp Adolygiadau ASA os gwelwch yn dda.

⁶ www.gaa.ac.uk/Pages/GlossaryCY.aspx?Category=0

⁷ Gwelwch nodyn 4.

dair blynedd gydag estyniad posibl i bedair. Canlyniad y cyfnod swydd yma yw trosiant uchel o arholwyr ac mae'r Brifysgol wedi symud i dymor swydd o bedair blynedd i reoli'r broses yn well. Mae prosesau gwirio yn eu lle i sicrhau bod yr arholwyr yn cael eu tynnu o amrywiaeth eang o sefydliadau ac yn ddigon profiadol ac o lefel ddigon uchel i allu cyflawni'r rôl.

1.2.2 Mae rôl yr arholwr allanol wedi'i disgrifio yn y Llawlyfr Rheoliadau Academaidd 2013-2014. Mae'r arholwyr allanol yn adrodd yn flynyddol gynted ag y bo modd ar ôl i'r byrddau arholi gyfarfod. Mae'r adroddiad yn nodi a yw'r safonau a osodwyd ac a gyflawnwyd yn briodol i lefel y dyfarniad drwy gyfeirio at feincnodau a gyhoeddwyd, pwyntiau cyfeirio allanol eraill a safonau mewn sefydliadau tebyg eraill. Yn ogystal, mae arholwyr allanol yn rhoi sylwadau ar yr arfer a'r broses asesu. Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd yn derbyn adroddiad trosolwg, sy'n ei alluogi i dderbyn sicrhad am gyrhaeddiad academaidd a gweithrediad y broses asesu.

1.2.3 Derbynnir adroddiadau gan y Gofrestrfa ar ran yr Is-Ganghellor. Mae'r Gofrestrfa'n canfod y materion sydd angen ymateb ar lefel y brifysgol ac yn eu hanfon at unigolyn priodol i gael eu gweithredu. Pennaeth yr Ysgol sy'n gyfrifol am gamau gweithredu ar lefel yr ysgol ac mae'n ymateb i'r arholwr ar ôl ystyried yr adroddiad ar Fwrdd Astudiaethau'r Ysgol. Mae adroddiadau ac ymatebion ar gael ar-lein i staff a myfyrwyr eu gweld. Mae llythyrau i arholwyr yn cynnwys ymatebion manwl sy'n ymdrin yn briodol â sylwadau a wneir yn yr adroddiadau a chânt eu hanfon yn brydlon. Trwy'r broses adolygu flynyddol, dilynir y camau gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu.

Asesiad a safonau

1.3 Mae'r Brifysgol yn rhoi pwyslais sylweddol ar yr angen i sicrhau bod asesiad yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu perthnasol. Mae wedi gwneud adolygiad sylweddol yn ddiweddar o'i pholisi a'i harferion yn y maes asesu. Nod ei hadolygiad, dan y teitl 'Materion Asesu', yw sicrhau cysondeb, tegwch ac eglurder i fyfyrwyr; eglurder a mwy o effeithlonrwydd mewn rheoli asesiad i staff; a mwy o hyder yn safonau'r dyfarniadau a chywirdeb y systemau a ddefnyddir i reoli dyfarniadau ar gyfer y Brifysgol. Mae'r gwaith wedi cynhyrchu fframwaith diwygiedig ar gyfer y Brifysgol sy'n arwain polisi ac arferion ym maes asesiad. Mae'r prosiect wedi cwblhau ei adolygiad o bolisi ac arferion ac mae yn y cam gweithredu erbyn hyn. Soniodd y staff am esiamplau o newidiadau i arferion ac yn arbennig ddulliau asesu mwy arloesol, gwell aliniad â chanlyniadau dysgu a llwyth asesu mwy cyson ar draws y modiwlau, y rhaglenni a'r ysgolion.

1.3.1 Ystyrir y strategaeth asesu fel rhan o'r broses o gymeradwyo rhaglenni. Mae llawlyfrau myfyrwyr yn nodi gofynion asesu a dyddiadau cyflwyno gwaith. Dywedodd y staff bod meini prawf asesu'n cael eu rheoli ar lefel ysgol ac yn dal i gael eu dylanwadu gan y meini prawf asesu generig ar gyfer y Brifysgol gyfan sy'n cael eu datblygu gan y prosiect Materion Asesu. Yn 2012, cymeradwyodd y Senedd bolisi'n nodi y dylid rhoi adborth am asesiad i fyfyrwyr o fewn pedair wythnos waith. Dywedodd y myfyrwyr a gyfarfu â'r adolygwyr nad oedd hi'n arfer rheolaidd i gynnwys dyddiadau adborth mewn llawlyfrau rhaglen a bod amseroedd dychwelyd yr adborth yn amrywio o'r diwrnod dilynol i gyfnod o ddeufis. Yn ogystal, dywedwyd bod ansawdd a maint yr adborth yn amrywio o 'ddefnyddiol a llawn' i 'gyfyngedig ac heb fod o gymorth'. Mae'r prosiect Materion Asesu wedi sefydlu fframwaith a allai fod yn effeithiol ar gyfer cynllunio a gweithredu arferion asesu ond mae gwaith sylweddol i'w wneud hefyd cyn i'r canlyniadau gael eu hystyried yn arferion gosodedig o fewn y Brifysgol. Mae'r tîm yn **argymell** bod y Brifysgol yn symud yn gyflym i sicrhau gweithrediad cynhwysfawr y fframwaith Materion Asesu ar draws y ddarpariaeth i gyd.

1.3.2 Mae rheoliadau academaidd y Brifysgol yn nodi cyfres gynhwysfawr o ofynion ar gyfer cynnal arholiadau a mathau eraill o asesiadau, yn cynnwys prosesau marcio a safoni, ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, mae gan y Brifysgol bolisi ar gyfer ystyried

amgylchiadau esgusodol, a gweithredir y polisi hwn yn effeithiol. Mae adroddiadau arholwyr allanol yn cadarnhau bod safonau'r dyfarniadau'n briodol ac yn gyffelyb â'r rheiny mewn prifysgolion tebyg eraill.

1.3.3 Clywodd y tîm adolygu bod gwallau data difrifol yn 2009 yn ymwneud â marciau terfynol myfyrwyr yr Ysgol Meddygaeth oedd yn graddio. Canlyniad hyn oedd bod rhai myfyrwyr wedi cael eu methu ar gam, a rhai wedi'u pasio ar gam. Cywirwyd y canlyniadau anghywir hyn yn ddiweddarach. Cymerwyd camau gweithredu hefyd i gywiro problemau sylfaenol wrth gynhyrchu a rheoli data. Yn haf 2012, roedd rhagor o wallau data yn ymwneud â chanlyniadau terfynol y broses ddsbarthu i fyfyrwyr meddygol oedd yn graddio. Yn haf 2012, cychwynnodd yr Is-Ganghellor ymchwiliad llawn i bryderon am ansawdd data yn yr Ysgol Meddygaeth. Roedd yr adroddiad a gafwyd o ganlyniad i hwn yn nodi problemau systemig yn y dulliau o gynhyrchu a rheoli data a wnaed yn waeth gan newidiadau rheolaidd i arferion asesu o fewn y radd feddygol. Tynnwyd sylw hefyd at risgiau i gynhyrchiad y canlyniadau blwyddyn derfynol yn haf 2013. Fel y digwyddodd, roedd rhagor o wallau data wrth gynhyrchu canlyniadau i fyfyrwyr meddygol oedd yn graddio yn 2013. Mae argymhellion yr adroddiad ymchwiliad wedi eu gweithredu ond nid oes unrhyw ganlyniadau, wedi eu seilio ar y trefniadau newydd, wedi eu cynhyrchu eto. Mae'r broblem sylfaenol o gronfa ddata dameidiog, annibynnol yn yr Ysgol Meddygaeth wedi derbyn sylw drwy weithredu system reoli cofnodion myfyrwyr y Brifysgol, sy'n galluogi i'r gwaith o gyfrifo marciau modiwlau, cynnydd a chanlyniadau dyfarniadau ddigwydd o un ffynhonnell unigol. Mae cofnodion yr Ysgol Meddygaeth yn cael eu cadw fel system weithredu wrth gefn am y tair blynedd nesaf nes y gwelir bod y trefniadau newydd yn ddibynadwy. Mae'r tîm adolygu'n fodlon bod gan y trefniadau newydd y potensial i gynhyrchu canlyniadau terfynol sy'n gywir a dibynadwy ar gyfer myfyrwyr meddygol sy'n graddio. Mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Brifysgol yn cadw llygad barcud ar y broses o gynhyrchu canlyniadau ar gyfer myfyrwyr meddygol yn eu blwyddyn derfynol nes y bydd yn fodlon nad oes gwallau yn y system newydd.

1.3.4 Yn gyffredin â'r holl brifysgolion yng Nghymru, mae Prifysgol Caerdydd yn caniatáu i fyfyrwyr gyflwyno unrhyw asesiad yn y Gymraeg, a bydd yn trefnu cyfieithiad i bwrpasau marcio. Mae nifer o fodiwlau'n cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y Brifysgol gyda threfniadau cyfieithu priodol ar waith ar gyfer unrhyw bwrpasau safoni neu arholi allanol.

1.3.5 Mae'r Senedd yn goruchwyllo cyrhaeddiad academaidd ac arferion asesu drwy system adrodd flynyddol. Mae'r adroddiad blynyddol yn ymddrin â chyrhaeddiad academaidd yn ogystal ag amrediad o faterion yn ymwneud ag arferion asesu. Mae'r adroddiadau'n dangos darlun boddhaol ond maent yn parhau i bwysleisio'r ffaith fod y Brifysgol yn rhoi blaenoriaeth i wella'r arferion asesu.

Gosod a chynnal safonau rhaglenni

1.4 Mae'r prosesau ar gyfer gosod a chynnal safonau wedi eu diffinio'n dda a'u gweithredu'n briodol.

1.4.1 Ystyrir y cynigion ar gyfer rhaglenni newydd gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd, sy'n gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig gan y Senedd. Mae angen i raglenni newydd ddangos eu bod yn cyd-fynd â chenhadaeth y Brifysgol, a chynlluniau strategol y Brifysgol a'r Ysgolion.

1.4.2 Mae'r Brifysgol wedi cynhyrchu canllawiau am gymeradwyo, cynnal a chadw rhaglenni, a ddefnyddir gan staff sy'n cyfranogi yn y broses o ddatblygu rhaglenni newydd neu newidiadau i raglenni astudio. Cyhoeddwyd arweiniad yn ddiweddar ar strwythur rhaglenni a addysgir. Mae hwn yn cynnwys y cyngor y dylid adeiladu'r holl raglenni newydd a'r rhaglenni a ail-ddilyswyd o amgylch 20 credyd o leiaf, gyda rhai eithriadau cyfyngedig, i reoli darpariaeth y cwricwlwm ac asesiadau'n well ac i wella cysondeb profiad y myfyrwyr

o ddysgu ac asesu. Gallai'r staff roi esiamplau i'r tîm o newidiadau cadarnhaol i arferion addysgu ac asesu yn dilyn y newidiadau hyn. Roedd esiamplau o gofnodion o brosesau cymeradwyo rhaglenni a adolygwyd gan y tîm yn dangos bod y trefniadau'n gadarn ac wedi eu gweithredu yn unol ag arweiniad cyhoeddedig.

1.4.3 Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi adolygu a diwygio trefniadau ar gyfer prosesau adolygu cyfnodol a monitro blynyddol ac wedi cysylltu'r prosesau hyn yn agosach. Ystyrir mai'r broses adolygu gyfnodol yw'r gydran strategol yn y system ansawdd. Mae gwaith monitro blynyddol, a elwir yn broses o Adolygu a Gwella'n Flynyddol (AGF), yn darparu gwiriad iechyd blynyddol. Gwneir gwaith adolygu cyfnodol ar gyloch o bum mlynedd. Lle bo'n bosibl, mae'r cylch yn cael ei alinio gyda gofynion cyrff PSRB ar gyfer ail-ddilysu. Mae canlyniad yr adolygiad cyfnodol ar ffurf adroddiad terfynol a chynllun gweithredu a weithredir ac sy'n cael ei fonitro drwy'r broses AGF. Mae esiamplau o gynlluniau gweithredu ac adroddiadau adolygu cyfnodol a welwyd gan y tîm yn dangos bod y broses yn cael ei gweithredu mewn modd cadarn ac y gosodwyd camau gweithredu perthnasol ar ôl yr adolygiad.

1.4.4 Mae'r broses AGF wedi'i seilio ar gyfres ddata sydd wedi'i chynhyrchu'n ganolog sy'n cynnwys data am geisiadau a thrawsnewidiadau, proffiliau myfyrwyr, cyfraddau cynnydd a chwblhau, cyflogaeth i raddedigion a chanlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC). Cyflwynir y rhain ar graff tueddiadau tair blynedd i alluogi staff yn yr ysgol i wneud dadansoddiad o dueddiadau. Mae pwyslais ar welliant hefyd. Mae'r Bwrdd Astudiaethau perthnasol (a addysgir neu ymchwil), neu gyfatebol, yn ystyried adroddiad cychwynnol yr adolygiad AGF, ac yn ei gyflwyno i Fwrdd yr Ysgol. Cynhyrchir crynodeb lefel ysgol ac mae pwyllgorau AGF y colegau yn ei ystyried. Cadeirir y pwyllgorau hyn gan Ddeoniaid Addysg y Colegau, ac mae gan fyfyrwyr gynrychioliad myfyrwyr. Ar ôl ystyried crynodeb yr ysgol, cynhelir cyfarfod gyda Phennaeth yr Ysgol i gytuno ar fersiwn derfynol o'r cynllun gweithredu sydd i gael ei ddwyn ymlaen. Mae adroddiad cyfunol o'r Colegau'n caniatáu i gamau gweithredu ar lefel prifysgol gael eu pennu a'u dwyn ymlaen gan y Prif Swyddog Gweithredu a Dirprwy Is-Ganghellor Profiad y Myfyrwyr a Safonau Academaidd. Dywedodd y staff a gyfarfu â'r tîm adolygu bod y broses newydd yn caniatáu ffocws unigol a mwy cyfannol ar y materion ar lefel rhaglen, ysgol a phrifysgol o fewn y broses AGF, sydd wedi galluogi mwy o ffocws ar welliant.

Meincnodau pwnc

1.5 Mae'n amlwg bod defnydd effeithiol wedi'i wneud o ddatganiadau meincnod pwnc a datganiadau cymhwyster wrth gynllunio a chymeradwyo rhaglenni.

1.5.1 Mae gofyn i staff sy'n cynnig rhaglenni astudio newydd archwilio aliniad y rhaglen a gynigir gyda datganiadau meincnod pwnc. Yn ogystal, wrth ddatblygu'r cynnig, disgwylir iddynt geisio cyngor allanol o ystod o ffynonellau, gan gynnwys arbenigwyr allanol, cyrff PSRB neu gyflogwyr perthnasol. Mae cynigion ar gyfer rhaglenni newydd yn cynnwys aliniad priodol â'r pwyntiau cyfeirio allanol hyn.

1.5.2 Mae nifer o raglenni'r Brifysgol wedi eu hachredu gan gyrff PSRB. Ymgynghorir ynghylch y cyrff PSRB perthnasol yn rheolaidd ar gamau datblygu a chymeradwyo rhaglenni ac, mewn rhai achosion, mae digwyddiadau cymeradwyo rhaglenni'n cynnwys aelodau o gyrff PSRB ar Banel Cymeradwyo'r Rhaglen. Mae'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd yn derbyn adroddiadau o ymweliadau gan gyrff PSRB ac yn craffu ar gamau gweithredu ac ymatebion. Os nad yw gofynion cyrff PSRB yn alinio gyda rheoliadau'r Brifysgol, gellir gwneud cais am eithriadau ar bwynt cymeradwyo rhaglenni. Mae'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd yn goruchwyllo'n effeithiol yr aliniad â gofynion cyrff PSRB.

2 Ansawdd cyfleoedd dysgu

Canlyniad

Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu ym Mhrifysgol Caerdydd yn **cyflawni disgwyliadau'r DU**. Mae rhesymau'r tîm am y feirniadaeth yma i'w gweld isod.

Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu a dysgu

2.1 Mae cyfleoedd datblygiad staff eang ar gael i gefnogi dysgu ac addysgu. Mae'r cyfleoedd yn cael eu darparu'n ganolog ac yn lleol, gan gynnwys cyrsiau hyfforddi, gweithdai a chynhadledd dysgu ac addysgu flynyddol. Clywodd y tîm gan nifer o aelodau'r staff am y gwerth a roddir i ddysgu ac addysgu ac am effeithiolrwydd y datblygiad proffesiynol parhaus (CPD) sydd ar waith.

2.1.1 Mae llwybrau gyrfaoel sydd wedi'u datblygu'n ddiweddar ym meysydd addysgu ac ysgoloriaeth, a allai o bosib arwain at athrawiaethau, yn cefnogi ac yn tystio i'r gwerth a roddir gan y sefydliad i ddysgu ac addysgu. Cyfarfu'r tîm â staff oedd wedi cael dyrchafiad ar y llwybr hwn ac wedi derbyn cefnogaeth i wneud hynny.

2.1.2 Mae'r Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysgu a Dysgu Prifysgol (PCUTL), a achredwyd gan yr Academi Addysg Uwch, yn tanategu datblygiad sgiliau dysgu ac addysgu mewn staff newydd. Rhaid i staff academaidd gwblhau tri o'r pedwar modiwl PCUTL fel amod o gwblhau cyfnod prawf yn llwyddiannus. Clywodd y tîm adolygu gan nifer o aelodau'r staff oedd wedi gwneud y rhaglen PCUTL am effaith bositif y rhaglen, ac roedd hi'n amlwg bod y manteision y tu hwnt i ddatblygiad uniongyrchol a'u bod o fudd i gydweithwyr eraill. Nododd y Brifysgol bod llwyddiant y rhaglen PCUTL wedi arwain at ordanysgrifio a bod gan hyn felly'n golygu mai cyfyngedig yw'r mynediad at staff sefydledig nad ydynt ar brawf. Clywodd y tîm adolygu bod cyrsiau'r Brifysgol sydd wedi'u hachredu gan yr Academi Addysg Uwch, gan gynnwys y rhaglen PCUTL a chysiau cymorth dysgu ac addysgu eraill, i gael eu hadolygu yn 2014-2015 gyda'r bwriad o sicrhau mynediad at gyfleoedd priodol.

2.1.3 Ymgymerir yn frwd ag arsylwi addysgu gan gymheiriaid ac mae'n elfen o'r rhaglen PCUTL. Clywodd y tîm dystiolaeth i ddangos bod y gweithgareddau arsylwi gan gymheiriaid yma'n ymgysylltu staff sefydledig gyda'r rhaglen PCUTL a gyda phrosesau dysgu ac addysgu yn gyffredinol.

2.1.4 Mae'r Brifysgol yn rhoi amlygrwydd i gyflawniadau a datblygiadau mewn dysgu ac addysgu, gan gynnwys hyrwyddo cyflawniadau enillwyr gwobrau'r Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol (NTFS) a thrwy gynnwys profiad addysgu a phrofiad fel myfyriwr yn categorïau yn y gwobrau Dathlu Rhagoriaeth blynyddol a wneir gan y Brifysgol.

2.1.5 Mae Cod Ymarfer y Brifysgol ar gyfer Graddau Ymchwil yn sefydlu'n glir y cyfrifoldebau ynghylch gwaith addysgu myfyrwyr ôl-raddedig. Cyfrifoldeb Pennaeth yr Ysgol yw sicrhau bod myfyrwyr ymchwil sydd eisiau cael eu hystyried ar gyfer cyfleoedd addysgu'n gorfod bod wedi gwneud digon o hyfforddiant sy'n addas i'r gweithgaredd addysgu arfaethedig. Mae'r Brifysgol yn darparu amrywiaeth o hyfforddiant i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n addysgu, yn ganolog gan raglenni Coleg Graddedigion y Brifysgol, a thrwy hyfforddiant penodol i bynciau arbennig yn yr ysgolion.

2.1.6 Mae'r Brifysgol yn bwriadu sefydlu Uned Gwella Dysgu i gydlynu arbenigedd a gweithgareddau, gan gynnwys datblygu dulliau addysgu ac asesu. Y bwriad yw lansio'r Uned yn hydref 2014, gydag ehangiad i ddilyn yng ngwanwyn 2015 (gwelwch hefyd baragraff 4.3).

2.1.7 Mae'r cyfleoedd datblygiad staff priodol, eang ac ymatebol ym meysydd dysgu ac addysgu, gan gynnwys y rheiny sydd wedi'u hymestyn i fyfyrwyr ôl-raddedig, yn **nodwedd o arfer da**.

Adnoddau dysgu

2.2 Mae'r adnoddau dysgu a ddarperir gan y Brifysgol wedi eu cynllunio a'u defnyddio'n briodol ac wedi'u llunio i hyrwyddo cyflawniad canlyniadau dysgu myfyrwyr.

2.2.1 Disgrifir strategaeth y Brifysgol ar gyfer darparu a gwella adnoddau dysgu yn y ddogfen *Addysg a Myfyrwyr: Y Ffordd Ymlaen 2012-2017* yng nghyd-destun y cyfarwydddebau a nodwyd yng nghynllun strategol y Brifysgol, *Y Ffordd Ymlaen 2012-2017*. Mae'r Cynllun Ystadau yn ei dro wedi'i gysylltu â chynlluniau blynyddol y Gwasanaethau Proffesiynol. Mae Bwrdd Gweithredol y Brifysgol ac uwch arweinwyr yn goruchwyllo prosiectau i ddatblygu cyfleoedd dysgu ar lefel strategol a sefydliadol ac mae tystiolaeth o gyfranogaeth ystyrlon Undeb y Myfyrwyr ar bob cam yn y broses adolygu.

2.2.2 Mae'r gwasanaethau canolog yn casglu adborth gan fyfyrwyr am adnoddau dysgu'n rheolaidd ac yn defnyddio'r gyfranogaeth a'r adborth yma gan y myfyrwyr yn amlwg i adolygu a gwella'r ddarpariaeth. Adolygir y cynlluniau hyn ochr yn ochr ag adroddiadau AGF yr ysgolion. Mae llyfrgellwyr pwnc yn gweithio gyda'r panelau myfyrwyr-staff, ac yn cyfathrebu gwybodaeth am newidiadau i'r adnoddau sy'n codi o adborth gan fyfyrwyr i'r corff myfyrwyr drwy'r ymgyrch 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'.

2.2.3 Gall myfyrwyr ddefnyddio llyfrgelloedd ledled y Brifysgol. Cafwyd buddsoddiad ychwanegol mewn stoc dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Wrth adrodd am rai amrywiadau mewn oriau agor, mynediad a threfniadau benthyca, cadarnhaodd y myfyrwyr a gyfarfu'r tîm eu bod yn cael cyfle i roi adborth ar stoc llyfrgelloedd ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i gyrraedd deunydd nad yw efallai ar gael yn uniongyrchol. Nododd y tîm rai pryderon yn ymwneud â diffyg mynediad at leoedd gweithio i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig mewn rhai ysgolion a rhywfaint o anfodlonrwydd ynghylch yr anghysonderau mewn modelau a ddefnyddir i ddyrannu lleoedd gweithio. Roedd ymateb amserol y Brifysgol i'r pryderon hyn yn amlwg, ac mae darparu trefniadau amgen uniongyrchol a chynnwys lleoedd gweithio i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig wedi eu cynnwys yn y Cynllun Ystadau fel maes ar gyfer datblygiad tymor hir.

2.2.4 Rhith-amgylchedd dysgu'r Brifysgol, Learning Central, yw'r hwb ar-lein i fyfyrwyr gael gafael ar ddeunyddiau dysgu ar-lein ac olrhain eu cynnydd. Cafwyd cynnydd sylweddol mewn hybu defnydd llawn a chyson o Learning Central ac mae'r datblygiadau hyn wedi cael derbyniad positif gan y myfyrwyr. Cefnogir y staff darlithio gan y Tîm Technoleg Dysgu wrth recordio darlithoedd ar-lein a gyda gwaith i ddatblygu cysondeb y cyfleoedd rhith-ddysgu ar draws y modiwlau. Mae'r Brifysgol yn buddsoddi mewn rhagor o welliannau drwy'r prosiect Technoleg Addysg a'r prosiect Cylch Oes Data Myfyrwyr.

Llais y myfyrwyr

2.3 Mae'r myfyrwyr yn gwneud cyfraniad positif ac effeithiol i sicrhau ansawdd yn y Brifysgol. Mae eu cyfraniadau wedi bod yn ganolog wrth ddatblygu diwylliant o wella ansawdd y cyfleoedd dysgu.

2.3.1 Mae system cynrychiolaeth myfyrwyr ar waith ar draws y Brifysgol. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr yn aelodau o bob pwyllgor a chorff penderfynu sydd â chylch gwaith uniongyrchol yn ymwneud â dysgu ac addysgu ar draws y Brifysgol. Mae trafodaeth ffurfiol yn ymwneud â materion sicrhau ansawdd wedi'i gwella gan gyflwyniad ysgrifenedig blynyddol cynhwysfawr i'r myfyrwyr gan Undeb y Myfyrwyr, y mae'r Brifysgol yn paratoi ymateb adeiladol iddo. Gwahoddir myfyrwyr yn rheolaidd i gyfrannu i'r broses o Adolygu a Gwella'n Flynyddol (AGF),

ac mae cynrychiolwyr yn eistedd ar bwyllgorau AGF y colegau. Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi cyflwyno cyfranogaeth ffurfiol y myfyrwyr mewn gwaith adolygu cyfnodol fel aelodau o dimau adolygu. Mae'r myfyrwyr yn cyfranogi ar banelau myfyrwyr-staff ac mewn pwyllgorau dysgu ac addysgu yn yr ysgolion. Ar lefel ganolog ac ar lefel ysgol, gallai staff a myfyrwyr gyfeirio at esiamplau o ganlyniadau cadarnhaol i brofiad dysgu'r myfyrwyr o ganlyniad i gyfraniadau cynrychiolwyr myfyrwyr i'r pwyllgorau a'r rhwydweithiau yma.

2.3.2 Mae cysylltiadau cryf rhwng Undeb y Myfyrwyr a staff uwch y Brifysgol, sydd wedi eu nodi mewn cytundeb perthynas. Mae agwedd y Brifysgol tuag at lais y myfyrwyr a'i phartneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr yn hunanwerthuso, gydag uchelgeisiau clir ac adolygiad ymgynghorol, rheolaidd o gynnydd yn erbyn targedau. Mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn defnyddio mynediad rheolaidd at uwch reolwyr a staff drwy gyfarfodydd a fforymau rheolaidd y Rhwydwaith Polisi. Wrth i'r Brifysgol ddatblygu ei gweithdrefnau ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau ar draws pob coleg, efallai y bydd eisiau sicrhau bod myfyrwyr yn ymwneud yn ffurfiol â'r prosesau hyn. Mae cysylltiadau effeithiol rhwng Coleg Graddedigion y Brifysgol a'r rhwydwaith cynrychiolwyr myfyrwyr ôl-raddedig.

2.3.3 Rheolir y system cynrychiolaeth myfyrwyr academiaidd gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, gyda goruchwyliaeth ganolog gan Undeb y Myfyrwyr wedi'i chefnogi gan aelodau dynodedig o staff yn yr ysgolion. Mae tystiolaeth o ddefnydd da o ddeunyddiau cymorth a hyfforddi priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda.

2.3.4 Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd eang o arolygon myfyrwyr, gan gynnwys mewnblannu canlyniadau'r AMC, yr Arolwg Profiad Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir (PTES) a'r Arolwg Profiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig (PRES) yn y broses AGF ac yn nhafodaethau'r panelau myfyrwyr-staff. Yn ogystal ag arolygon modiwl ac ymgynghoriadau ysgol, mae'r gwasanaethau canolog yn gwneud arolygon myfyrwyr yn rheolaidd. Mae canlyniadau'r ymgynghoriadau, ac ymateb y Brifysgol i hynny, yn cael eu bwydo'n ôl yn rheolaidd i'r myfyrwyr drwy rwydweithiau cynrychiolwyr a thrwy'r ymgyrch 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'. Mae gwaith y Brifysgol i gefnogi a defnyddio cyfraniadau positif y myfyrwyr wrth ddatblygu diwylliant o wella ansawdd y cyfleoedd dysgu yn **nodwedd o arfer da**.

Defnyddir gwybodaeth rheoli i wella ansawdd a safonau

2.4 Dangosodd y Brifysgol ddefnydd effeithiol o wybodaeth rheoli drwy ddefnyddio dangosfyrddau meincnodi sydd wedi'u strwythuro'n dda, sy'n cynnwys data o dueddiadau hanesyddol ar lefelau'r ysgolion, y colegau a'r Brifysgol, a gyda thargedau penodol wedi'u cytuno drwy'r broses adolygu perfformiad. Mae dangosfyrddau Adolygu a Gwella'n Flynyddol (AGF) yn rhoi trosolwg cynhwysfawr ar lefel yr ysgol i raglenni israddedig ac ôl-raddedig a addysgir. Clywodd y tîm am ddarparu dadansoddiad manylach fel sy'n ofynnol ar lefelau'r rhaglenni a'r modiwlau. Mae elfennau'r rhaglen wella wedi'u hychwanegu at y dangosfwrdd AGF ac felly wedi'u hintegreiddio i'r broses AGF. Mae cynlluniau parhaus i ehangu a datblygu elfennau'r dangosfwrdd sy'n ymwneud â gwelliant.

2.4.1 Gwelodd y tîm dystiolaeth o ystyriaeth gadarn o wybodaeth rheoli, gan gynnwys gwybodaeth sy'n cyfeirio at (i) yr arolygon AMC, PTES a PRES; ac (ii) ystadegau cynnydd a chyflawniad. Gwelwyd bod hyn yn digwydd ar draws y sbectwm llawn o'r strwythur pwyllgorau a'u bwydo i mewn i'r broses adolygu flynyddol. Ymhellach, mae'r Brifysgol wedi datblygu dull cadarn o ystyried yr ymatebion testun rhydd mewn arolygon myfyrwyr, ac o ymateb iddynt, sy'n bwydo i mewn i ddatganiadau adborth 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'. Mae'r Adroddiad Blyneddol ar Asesiad yn cynnwys crynodeb clir iawn o ddata mewn graff dangosfwrdd sy'n cynnwys tueddiadau hanesyddol.

2.4.2 Mae defnyddio gwybodaeth rheoli'n gynhwysfawr er mwyn cefnogi ansawdd a safonau ar bob lefel, sy'n cynnwys agweddau o welliant, yn **nodwedd o arfer da**.

Mynediad i'r Brifysgol

2.5 Drwy ei Fframwaith Derbyn, mae'r Brifysgol yn darparu datganiad clir o'r egwyddorion sy'n arwain y gweithdrefnau derbyn. Mae'r Fframwaith ar gael i staff, darpar fyfyrwr a'u cynghorwyr ar wefan gyhoeddus y Brifysgol. Mae'r Fframwaith Derbyn yn nodi uchelgeisiau'r Brifysgol i ddenu, recriwtio a chadw myfyrwyr sydd â'r potensial i lwyddo, beth bynnag fo'u cefndir. Mae'r Is-Bwyllgor Derbyn yn monitro gweithrediad y Fframwaith Derbyn mewn ffordd deg, cyfiawn ac effeithiol ar ran y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd. Mae'r Fframwaith Derbyn yn eistedd ochr yn ochr â Pholisi Derbyn Cyd-destunol, sy'n tynnu sylw at ymgeiswyr yn erbyn meini prawf demograffig-gymdeithasol a nodwyd i gael eu hystyried ymhellach yn rhan o ymrwymadau'r Brifysgol i ehangu cyfranogaeth.

2.5.1 Darperir hyfforddiant ffurfiol a gorfodol, a sesiynau briffio rheolaidd, i staff sy'n cymryd rhan mewn prosesau penderfynu ar dderbyniadau, gan gynnwys tiwtoriaid derbyniadau academaidd. Mae goruchwyliaeth ganolog ar weithrediad a chyfathrebiad gweithdrefnau derbyn.

2.5.2 Darperir gwybodaeth glir am brosesau a pholisïau derbyn i ddarpar fyfyrwr a'u cynghorwyr. Mae gofynion mynediad lleiaf, cynigion safonol a Chyfrisi Gwybodaeth Allweddol yn cael eu darparu drwy'r gronfa ddata 'Chwiliwr Cyrsiau' ganolog. Yn ôl y myfyrwr a gyfarfu'r tîm, mae'r adnodd yma wedi cael derbyniad da.

2.5.3 Mae tystiolaeth i ddangos bod yr Is-Bwyllgor Derbyn yn monitro gweithdrefnau derbyn yn effeithiol, a oedd wedi pennu, ac wedi ymateb i, rywfaint o anghysondeb posibl wrth weithredu polisïau canolog.

Cwynion ac apeliadau

2.6 Mae gan y Brifysgol bolisïau a gweithdrefnau clir a phriodol ar gyfer rheoli cwynion ac apeliadau ac mae'r rhain wedi'u dogfennu'n dda mewn llawlyfrau myfyrwr ac mae cyfeiriadau clir at eu lleoliad ar-lein a thrwy Siarter y Myfyrwr.

2.6.1 Mae gan y gweithdrefnau cwyno ddau gam, cam anffurfiol cychwynnol, a cham ffurfiol dilynol lle nad oes datrysiad boddhaol ar y cam anffurfiol. Mae apeliadau academaidd wedi'u llywio gan weithdrefn ar wahân, yr adroddir am eu defnydd ac sy'n cael eu monitro ar wahân i gwynion. Mae'r Brifysgol yn cadw at ei hamseriadau swyddogol ar gyfer ymateb i gwynion ac apeliadau.

2.6.2 Cadarnhaodd y myfyrwr eu bod yn hyderus y byddent yn gallu llywio'r weithdrefn gwyno ac y gallent ganfod y prif ffynonellau gwybodaeth a chefnogaeth, yn cynnwys tiwtoriaid personol a Chanolfan Cyngor a Chynrychiolaeth Undeb y Myfyrwr.

2.6.3 Mae tiwtoriaid personol yn derbyn hyfforddiant a chymorth i'w galluogi i gynghori myfyrwr ar sut i weithredu polisïau ar gyfer cwynion ac apeliadau academaidd (gwelwch hefyd baragraff 4.6).

2.6.4 Mae'r Brifysgol yn monitro effeithiolrwydd gweithdrefnau cwyno ar lefel strategol, ac mae'r Senedd yn ystyried adroddiadau ar gwynion ffurfiol a'r rheiny a dderbyniwyd gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Nid oes monitro canolog o gwynion anffurfiol, er bod yr ysgolion yn cael eu cynghori i gadw cofnodion o'r rhain. Mae'r Brifysgol yn bwriadu creu system ar gyfer sicrhau bod y polisi ar gwynion anffurfiol yn cael ei ddilyn yn rheolaidd yn yr ysgolion ac yn cael ei gasglu i bwrpasau monitro.

Cyngor ac arweiniad gyrfaoedd

2.7 Mae gan y Brifysgol agwedd glir tuag at addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd ac mae'n cymryd camau i sicrhau ei fod yn cael ei adolygu a'i werthuso'n briodol. Mae'r gyrrwr strategol ar gyfer agwedd y Brifysgol tuag at addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd wedi'i gynnwys yn y ddogfen *Y Ffordd Ymlaen 2012-2017* ac wedi'i ddylanwadu gan waith y Brifysgol ochr yn ochr â rhaglen *Cyfeiriadau'r Dyfodol* gan Academi Addysg Uwch Cymru. Mae dull strategol y Brifysgol yn cynnwys amcanion i gynyddu cyfleoedd dysgu cysylltiedig â gwaith, i gynyddu darpariaeth 'leithoedd i Bawb' ac i ddarparu cyfleoedd strwythuredig i fyfyrwyr i adolygu eu sgiliau cyflogadwyedd eu hunain (gwelwch hefyd baragraff 4.7). Yn ogystal â darparu prosiectau cyflogadwyedd pwrpasol, megis Gwobr Caerdydd, gwelodd y tîm dystiolaeth o esiamplau da o ymgorffori menter yn y cwricwlwm.

2.7.1 Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod wedi cael y cyfle i gael gafael ar wybodaeth a chyngor gyrfaoedd drwy'r Ganolfan Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd canolog neu drwy gefnogaeth arbenigol yn eu hysgolion.

2.7.2 Cefnogir y staff gan y Ganolfan Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd i arwain myfyrwyr wrth drafod gyrfaoedd, gydag amrediad eang o adnoddau canolog, gan gynnwys templedi briffio a thempledi seminar i staff eu haddasu.

2.7.3 Mae'r Brifysgol yn monitro gweithrediad ei strategaeth cyflogadwyedd drwy gynlluniau gweithredu rheolaidd, grwpiau defnyddwyr a chrynodebau adborth a gynhyrchir gan y Ganolfan Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd ac sy'n derbyn ystyriaeth gan yr ysgolion yn rhan o'r broses AGF. Ystyrir cyfresi data cenedlaethol yn rheolaidd ar lefel strategol yn y sefydliad, a sicheir bod gwybodaeth am gyrchfannau graddedigion ar gael i'r myfyrwyr drwy'r Cyfresi Gwybodaeth Allweddol (KIS).

Cefnogi myfyrwyr anabl

2.8 Cymerir camau gan y Brifysgol i sicrhau bod hawliau myfyrwyr anabl yn cael eu cyflawni. Mae'r Gwasanaeth Anabledd a Dyslecsia, gyda chefnogaeth y Ganolfan Cymorth i Fyfyrwyr, yn arwain gweithrediad gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer cefnogi myfyrwyr gydag anableddau ac mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ei fonitro ar lefel strategol.

2.8.1 Mae tiwtoriaid personol yn derbyn cyngor a hyfforddiant i'w helpu i gefnogi myfyrwyr gydag anableddau ac i'w helpu i bennu llwybrau priodol i gael cefnogaeth. Sicheir bod y staff yn ymwybodol o bolisiau perthnasol y Brifysgol yn ogystal â chyfrifoldebau deddfwriaethol ehangach, ac maent yn cael esiamplau clir ac ymarferol o ffyrdd y gellir gweithredu'r cyfrifoldebau hyn.

2.8.2 Mae arwyddion clir i'r myfyrwyr eu gweld drwy'r Gwasanaeth Anabledd a Dyslecsia at yr wybodaeth am gymorth, sgrinio diagnostig ac addasiadau i arholiadau academiaidd. Darperir cymorth yn ganolog gan y Gwasanaeth Anabledd a Dyslecsia, neu gan gynghorwyr dynodedig yn yr ysgolion.

Cefnogi myfyrwyr rhyngwladol

2.9 Mae'r Brifysgol yn darparu cymorth i fyfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr drwy'r tîm Cymorth Myfyrwyr Rhyngwladol, sy'n rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad cyn mynediad a thrwy'r broses gofrestru. Mae Rhaglen Ymsefydlu ar waith ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol newydd. Wedi cwblhau'r rhaglen, mae timau gwasanaeth canolog eraill yn parhau i gefnogi myfyrwyr rhyngwladol. Mae effeithiolrwydd trefniadau ymsefydlu'n cael ei fonitro a'i adolygu'n weithredol drwy gasglu adborth gan fyfyrwyr a thrwy ymgynghoriadau eang.

2.9.1 Cadarnhaodd y myfyrwyr a gyfarfu'r tîm bod trefniadau derbyn ac ymsefydlu'n cwrdd â'u disgwyliadau a'u bod wedi elwa o'r gefnogaeth sylweddol a ddarperir gan y tîm Cymorth Myfyrwyr Rhyngwladol.

2.9.2 Mae'r Brifysgol yn darparu sesiynau cymorth Iaith Saesneg i fyfyrwyr rhyngwladol a dargedir, gan gynnwys cymorth o fewn yr ysgolion ac adnoddau ar-lein canolog.

2.9.3 Mae'r Brifysgol yn defnyddio adborth gan fyfyrwyr a ddarperir gan y Baromedr Myfyrwyr Rhyngwladol, sy'n adlewyrchu lefel uchel o foddhad myfyrwyr rhyngwladol y Brifysgol gyda'r gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr Rhyngwladol.

Cefnogi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig

2.10 Mae gan y Brifysgol gefnogaeth ac arweiniad priodol ar waith i alluogi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig i gwblhau eu rhaglenni. Mae staff sy'n cefnogi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig wedi eu cefnogi'n briodol i gyflawni eu cyfrifoldebau.

2.10.1 Mae'r profiad ymchwil ôl-raddedig wedi ei hwyluso'n ganolog gan Goleg Graddedigion y Brifysgol (UGC). Mae Coleg Graddedigion y Brifysgol yn darparu cymorth a rhaglenni hyfforddiant ar draws sbectrwm eang o weithgareddau, gan gynnwys cymorth addysgu a sgiliau ymchwil cyffredinol a phenodol. Mae Coleg Graddedigion y Brifysgol yn cysylltu â Rhaglen Ymchwilydd Caerdydd i gefnogi ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa. Mae gan y Brifysgol strwythur clir o hyfforddiant a chefnogaeth i oruchwylwyr ymchwil ôl-raddedig, gyda fframwaith cefnogi sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Astudiaethau Ymchwil Ôl-raddedig ar lefel yr ysgolion. Mae Cyfarwyddwyr yn cyfarfod ar lefelau'r Colegau a'r Brifysgol yn rhan o'r rhwydwaith ymchwil ôl-raddedig i annog ymgysylltiad rhwng disgyblaethau ac i ymgysylltu mewn digwyddiadau diwrnod allan thematig. Mae Cyfarwyddwyr Astudiaethau Ymchwil Ôl-raddedig yn gyfrifol am sicrhau bod goruchwylwyr myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn eu hysgol wedi eu paratoi'n briodol.

2.10.2 Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd wedi diwygio'r cod ymarfer ar gyfer graddau ymchwil a gweithdrefnau ar gyfer cynnal arholiadau graddau ymchwil i adlewyrchu *Pennod B11: Graddau ymchwil* o God Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd).

2.10.3 Mae gan y sefydliad amrywiaeth o ddulliau o gipio llais y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Y corff uwch yn y trefniant yma yw'r Fforwm Cynrychiolwyr Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig a gefnogir gan Goleg Graddedigion y Brifysgol ac y mae cynrychiolwyr myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig o bob rhan o'r Brifysgol yn mynd iddo. Mae'r cadeirydd yn fyfyrwr etholedig sy'n eistedd ar Fwrdd Coleg Graddedigion y Brifysgol. Mae'r Fforwm yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, cyn cyfarfod Bwrdd Coleg Graddedigion y Brifysgol, y gall canlyniadau fwydo i mewn iddo.

Dysgu a ddarperir drwy drefniadau cydweithredol

2.11 Mae'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli ansawdd y cyfleoedd dysgu a ddarperir yn rhan o drefniant cydweithredol yn adlewyrchu dull safonol y Brifysgol o sicrhau ansawdd darpariaeth ar ei champws. Mae trefniadau cydweithredol yn cael eu rheoli'n effeithiol.

2.11.1 Mae'r Brifysgol wedi diwygio'n fawr y polisiâu a'r prosesau sy'n ymwneud â darpariaeth gydweithredol, ar ôl pennu hwn fel maes o risg uchel posibl a datblygiad posibl yn y dyfodol. Diwygiwyd y Fframwaith Polisi diwygiedig ar gyfer Darpariaeth Gydweithredol ym mis Rhagfyr 2013 ac mae wedi'i fapio yn erbyn *Pennod B10: Rheoli darpariaeth addysg uwch gydag eraill* y Cod Ansawdd. Mae'r Brifysgol hefyd wedi creu strwythurau newydd i gefnogi darpariaeth gydweithredol i ganiatáu unrhyw ehangiad yn y maes yma i gael ei gefnogi'n dda. Ni welodd y tîm dystiolaeth o unrhyw achos i bryderu yn y cyswllt hwn, ond bydd y Brifysgol eisiau arfer gofal priodol o ran rheoli unrhyw dyfiant sylweddol.

2.11.2 Yn 2007, sefydlodd y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd yr Is-Bwyllgor Darpariaeth Gydweithredol i sicrhau bod gweithgareddau cydweithredol yn derbyn y sylw priodol. Mae'r Is-Bwyllgor yn darparu system drefnus ar gyfer cofnodi gwaith rheoli gweithgareddau partneriaeth. Mae datblygiadau wedi cynnwys adeiladu cyfres o gytundebau templed i gydfynd â gwahanol fathau o drefniadau newydd. Mae cofrestr gynhwysfawr o drefniadau cydweithredol yn ei lle.

2.11.3 Gwelodd y tîm dystiolaeth o driniaeth effeithiol a phrydlon o faterion ansawdd a safonau darpariaeth gydweithredol bosibl, ac adroddwyd am hyn i Fwrdd Astudiaethau Israddedig yr Ysgol, y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a'r Senedd.

2.11.4 Proses AGF arferol y Brifysgol (gan gynnwys cyfraniad gan arholwyr allanol) yw'r dull craidd o fonitro ansawdd a safonau mewn trefniadau cydweithredol. Mae Safonwyr Darpariaeth Gydweithredol yn academyddion o ysgol heblaw honno sy'n cydlynu ac yn cefnogi'r ddarpariaeth bartneriaeth honno. Maent yn rhoi golwg annibynnol o ansawdd gweithrediadau'r ddarpariaeth gydweithredol ac yn dangos lefel ychwanegol o oruchwyliaeth a roddir i ddarpariaeth gydweithredol. Gwelodd y tîm dystiolaeth bod y mecanwaith yma'n gweithio'n effeithiol.

Dysgu hyblyg a dosranedig ac e-ddysgu

2.12 Mae nifer gweddol fechan o raglenni addysg uwch â chredydau sy'n cael eu darparu'n gyfan gwbl drwy ddysgu o bell. Mae'r dull yma o ddarparu wedi'i gyfyngu i raddau mawr i rannau o raglenni. Mae cyfres fechan o raglenni ôl-raddedig a addysgir ar-lein ym maes gofal iechyd. Daeth y tîm i'r casgliad bod ansawdd y cyfleoedd dysgu yn y maes yma'n cael ei reoli'n effeithiol.

2.12.1 Yn 2009, sefydlodd y Brifysgol y Grŵp Rhith-amgylchedd Dysgu sy'n goruchwyllo'r rheolaeth ar ansawdd y platfform dysgu ar-lein ac adnoddau dysgu perthnasol gyda chymorth technoleg. Mae'r grŵp yma'n adrodd i'r Dirprwy Is-Ganghellor Profiad y Myfyrwyr a Safonau Academaidd ac i'r Rhwydwaith Polisi Addysg a Myfyrwyr.

2.12.2 Cymeradwyir ac adolygir yr holl raglenni dysgu o bell drwy brosesau safonol y Brifysgol.

2.12.3 Mae myfyrwyr dysgu o bell yn cael yr un cyfleoedd i werthuso eu profiadau dysgu a'r un mynediad i gymorth personol ac academaidd â myfyrwyr ar y campws. Disgwylir i'r thema gwella mewn perthynas â thechnoleg addysg, gan gynnwys cipio darlith a gwelliannau i'r rhith-amgylchedd dysgu, fod o fudd i fyfyrwyr dysgu o bell (gwelwch hefyd baragraff 4.10).

Dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gweithle

2.13 Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi diweddarau ei Chod Ymarfer ar Ddysgu yn y Gweithle sy'n nodi disgwyliaid a chyfrifoldebau ac mae wedi'i fapio i alinio gyda'r Cod Ansawdd. Mae'r mwyafrif o gyfleoedd dysgu yn y gweithle ym maes iechyd a meysydd perthynol i iechyd, lle mae codau ymarfer sector a gofynion cyrff PSRB yn diffinio goruchwyliaeth agos. Gwelodd a chlywodd y tîm dystiolaeth bod y rheolaeth ar leoliadau gwaith yn foddhaol a bod y myfyrwyr yn teimlo eu bod wedi cael eu cefnogi tra'r oeddent ar leoliad.

2.13.1 Ystyrir goruchwyliaeth o ddysgu mewn lleoliad nad yw'n glinigol drwy arolwg dysgu yn y gweithle a gyflwynwyd yn 2013. Dangosodd hyn lefel o foddhad o 93 y cant gyda lleoliadau gwaith. Y bwriad yw cynnal yr arolwg yn flynyddol gyda'r canlyniadau wedi eu hintegreiddio i mewn i ddangosfyrddau data'r Adolygiadau Blynyddol.

2.13.2 Mae'r ddogfen *Y Ffordd Ymlaen* yn cynnwys uchelgais i sicrhau bod yr holl ysgolion yn darparu cyfleoedd i gael profiad ar sail gwaith fel rhan annatod o'r agwedd strategol tuag at gyflogadwyedd. Clywodd y tîm bod colegau ac ysgolion yn datblygu cynlluniau yn y maes yma.

Siarter y myfyrwyr

2.14 Crëwyd siarter y myfyrwyr yn 2011 ac mae'n ymwneud â holl fyfyrwyr y Brifysgol. Caiff ei adolygu'n flynyddol gan Undeb y Myfyrwyr gyda'r Brifysgol.

2.14.1 Mae gwefan siarter y myfyrwyr yn cynnwys arwyddo manwl at bolisiau a gweithdrefnau ar gyfer cwyno ac apelio.

2.14.2 Codir ymwybyddiaeth y myfyrwyr o'r siarter drwy nifer o sianelau, yn cynnwys sianelau'r cyfryngau cymdeithasol Undeb y Myfyrwyr a thrwy gardiau plastig ar ddull cerdyn credyd a ddsberthir yn ystod y cyfnod cofrestru. Roedd yr ymatebion i'r arolwg yn dangos bod 70 y cant o fyfyrwyr israddedig, 60 y cant o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a 58 y cant o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig 'yn ymwybodol' o'r siarter, er mai ychydig oedd wedi ymweld â'r microwefan am siarter y myfyrwyr ar y brif wefan.

3 Gwybodaeth am gyfleoedd dysgu

Crynodeb

Mae'r wybodaeth y mae Prifysgol Caerdydd yn ei chynhyrchu am gyfleoedd dysgu'n **cyflawni disgwyliadau'r DU**. Mae'r gynulleidfa darged o'r farn bod yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu y mae'n eu cynnig yn addas i'r pwrpas ac yn hygyrch ac mae'n bosib ymddiried ynddi. Mae rhesymau'r tîm am y casgliad yma i'w gweld isod.

3.1 Mae'r Brifysgol yn cynhyrchu amrywiaeth eang o wybodaeth gyhoeddus ar y we ac ar bapur, a daeth y tîm i'r casgliad bod y wybodaeth yma wedi bod trwy brosesau sicrhau ansawdd i sicrhau ei bod yn gywir a chynhwysfawr. Y prif ffynonellau gwybodaeth i bobl sy'n bwriadu bod yn fyfyrwyr yw'r prosiectysau israddedig ac ôl-raddedig, y we, a'r porth Chwiliwr Cyrsiau a gynhelir ar wefan y Brifysgol. Ynghyd â chyfres o gyhoeddiadau cysylltiedig, mae'r rhain yn darparu gwybodaeth am gyrsiau unigol, cyfleusterau cefnogi myfyrwyr, cyllid myfyrwyr, llety, diwrnodau agored a dinas a rhanbarth Caerdydd.

3.2 Mae'r prosiectysau'n cael eu hadolygu a'u hailgyhoeddi'n flynyddol. Mae ysgolion a gwasanaethau cefnogi proffesiynol yn darparu gwybodaeth i swyddfa'r Cyfarwyddwr Rhyngwladol a Marchnata sydd, gan weithio gyda thîm y we, yn darparu'r gymeradwyaeth olygyddol derfynol. Mae'r Penaethiaid Cyfathrebu yn y Colegau'n cymryd rôl gydlynw fwy a mwy ac yn gweithio'n uniongyrchol gyda thîm y we. Mae'r prosiectysau a'r wybodaeth berthnasol yn cael eu cyhoeddi ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg.

3.3 Mae gwybodaeth ar y wefan i ymgeiswyr rhyngwladol yn cynnig arweiniad cyffredinol am safle'r Brifysgol ar amrywiol gymwysterau cenedlaethol, y broses geisiadau, gwybodaeth cyn cyrraedd, ymsefydlu a rhaglenni iaith Saesneg. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar gyfer pob gwlad unigol. Mae prosiectws penodol gan y Brifysgol i'r farchnad rhyngwladol.

3.4 Roedd y myfyrwyr yn teimlo bod y defnyddiau yma'n gywir, yn eang ac yn ddefnyddiol, ac yn nodi eu bod wedi gwella'n gyffredinol dros y blynyddoedd diweddar. Er hynny, mae'r Brifysgol wedi cychwyn ar brosiect tair blynedd o weddnewid ar y we i ostwng y nifer o we-dudalennau, i wella'r llywio o amgylch y wefan ac i symleiddio'r rheolaeth ar y we. Soniodd rhai o'r myfyrwyr am broblemau mynediad, ac nid oedd y myfyrwyr rhyngwladol i gyd yn ei chael hi'n hawdd cael gafael ar yr wybodaeth. Ond, dywedodd y myfyrwyr rhyngwladol a gyfarfu'r tîm bod rhagor o wybodaeth ar gael, a hynny'n hawdd ac mewn modd defnyddiol drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r Brifysgol.

3.5 Nododd y tîm bod diffyg eglurder ymysg rhai o'r staff yn ymwneud â'r cyfrifoldeb am gadw llygad ar yr wybodaeth a gyhoeddwyd gan bartneriaid cydweithredol am y Brifysgol a'i chysiau. Er na chanfuwyd unrhyw broblemau yn y maes yma, efallai y byddai'r Brifysgol eisiau ei sicrhau ei hun bod y cyfrifoldeb yma wedi'i bennu'n glir a'i gyfathrebu i staff mewnol.

3.6 Ar bob tudalen yn ymwneud â chwrs ar y Chwiliwr Cyrsiau mae dolen uniongyrchol at wefan UNISTATS sy'n dangos yr wybodaeth KIS sy'n ofynnol gan *Gylchlythyr CCAUC 11/27*. Mae hyn yn cynnwys y rhan o'r cwrs sydd ar gael yn y Gymraeg. Hefyd, mae pob gwe-dudalen i gwrs unigol ar gyfer y Brifysgol yn cynnwys prif benawdau'r wybodaeth KIS. Yr Is-Ganghellor sy'n llofnodi i dystio i gywirdeb y data KIS a ddarperir gan y Brifysgol.

3.7 Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod yn defnyddio llawlyfrau cwrs sy'n ddefnyddiol ac wedi eu diweddarau'n rheolaidd. Roedd y llawlyfrau a welwyd gan y tîm yn amrywio'n fawr o ran eu cynllun, eu harddull a'u cynnwys. Mae'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd wedi gwneud dadansoddiad o'r holl Lawlyfrau Ysgol, ac wedi paratoi testun generig, i'w weithredu o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2014-15, i gael ei ddefnyddio fel gwybodaeth sylfaenol ar gyfer pob llawlyfr i raglenni modiwlau israddedig. Mae Llawlyfrau i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ac a addysgir yn dangos lefel debyg o anghysondeb. Bwriad y Brifysgol yw cynhyrchu llawlyfrau i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ac a addysgir yn dilyn cymeradwyo'r testun terfynol i'r llawlyfr ar gyfer rhaglenni israddedig nad ydynt yn fodiwlau.

3.8 Ar ôl cwblhau'r cwrs, mae'r Brifysgol yn darparu Tystysgrifau a Thrawsgrifiadau Gradd dwyieithog wedi eu selio a'u llofnodi'n briodol sy'n ateb gofynion y Cod Ansawdd. Mae'r Trawsgrifiad hefyd yn cynnwys, fel atodiad, grynoded defnyddiol o'r cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd wedi cymeradwyo tystysgrif ddiwygiedig i ymgeiswyr sy'n astudio mewn sefydliad partner lle mae enw a lleoliad y partner wedi'i gynnwys yn y dystysgrif a'r trawsgrifiad.

3.9 Mae adran Ansawdd a Safonau gwefan fewnol y Brifysgol yn gweithredu fel llawlyfr ansawdd i'r staff sy'n rhan o wahanol lefelau'r prosesau sicrhau ansawdd. Mae'n darparu arweiniad clir ar gymeradwyo rhaglenni, ac ar reoli, monitro ac adolygu, rheoliadau academaidd, asesiad, ymgysylltiad myfyrwyr, gweithio gyda phobl eraill, ymchwil ôl-raddedig ac amrywiol bwyntiau cyfeirio allanol y Brifysgol. Mae'r llawlyfr yn adlewyrchu'r Cod Ansawdd yn glir. Dangosodd y staff hefyd bod cymorth ychwanegol ar gael yn hawdd gan gydweithwyr gwasanaethau cefnogi proffesiynol.

3.10 O fis Rhagfyr 2013, mae holl adroddiadau'r arholwyr allanol, gan gynnwys enw a sefydliad yr arholwr, ar gael i fyfyrwyr ar wefan Llais y Myfyrwyr, gyda chrynoded defnyddiol o rolau'r arholwyr.

3.11 Mae'r Brifysgol yn cymryd o ddifrif ei chyfrifoldebau am hybu'r iaith Gymraeg drwy ddatblygu cyfleoedd i fyfyrwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy weithredu ei Chynllun Iaith Gymraeg.

3.12 Mae datblygu cyrsiau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn cylch gwaith y Dirprwy Is-Ganghellor Profiadau y Myfyrwyr a Safonau Academaidd ac mae wedi ei gefnogi gan y Coleg Gymraeg Cenedlaethol (y Coleg), a sefydlwyd ym mis Ebrill 2011 i wneud trosolwg o'r ddarpariaeth Gymraeg yng Nghymru ac i gefnogi ei datblygiad. Mae'r Brifysgol wedi ei chynrychioli ar Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg a'i Bwrdd Academaidd. Mae'r Coleg wedi ariannu deg swydd academaidd i'r Brifysgol ac unfed ar ddeg wedi ei rhannu gyda phrifysgol arall yng Nghymru, ynghyd â phedair ysgoloriaeth ymchwil prifysgol. Soniodd y myfyrwyr am brofiadau cadarnhaol o ddysgu yn y Gymraeg, ond nododd nifer bod darpariaeth modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg yn anghyson a bod y galw gan fyfyrwyr mewn rhai disgyblaethau'n isel.

3.13 Mae Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig y Brifysgol, a gymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Mawrth 2014, yn rhan o gylch gwaith y Prif Swyddog Gweithredu a'i fwriad yw hyrwyddo'n weithredol yr egwyddor y bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â'r iaith Saesneg wrth ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru. Anogir cyfleoedd datblygiad staff drwy drefnu i gyfranogwyr yn y rhaglen PCUTL (gwelwch baragraff 2.1.2) gyflwyno eu portffolios addysgu yn y Gymraeg a derbyn adborth yn y Gymraeg gan gydweithwyr sydd â phrofiad uniongyrchol o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

4 Gwelliant i gyfleoedd dysgu

Canlyniad

Mae'r gwelliant mewn cyfleoedd dysgu ym Mhrifysgol Caerdydd yn **cyflawni disgwyliadau'r DU**. Mae rhesymau'r tîm am y feirniadaeth yma i'w gweld isod.

4.1 Mae gwelliant yn elfen allweddol sy'n tanategu strategaeth y Brifysgol, a nodir yn y ddogfen *Y Ffordd Ymlaen 2012-2017*, sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr. Y nod cyffredinol yw sicrhau bod graddedigion Caerdydd 'yn hyblyg, yn hyddysg ac yn gyflogadwy dros ben'. Mae'r agwedd a amlinellir yn y ddogfen *Y Ffordd Ymlaen 2012-2017* wedi hysbysu gweithgareddau gwella'r Brifysgol ers 2012, ac wedi parhau i ddylanwadu ar gwmpas a ffurf y prosiectau a gychwynwyd ers ei chyhoeddiad.

4.2 Gyda'i gilydd mae chwe gweithgaredd gwella drwy'r Brifysgol gyfan wedi tanategu agwedd y Brifysgol tuag at welliant. Dyma nhw: adnewyddu'r cynllun tiwtoriaid personol; adolygu a gwella gwasanaethau proffesiynol sy'n cefnogi myfyrwyr; gweithredu'r prosiectau Materion Asesu a Phrofi Rhagoriaeth yn y sesiwn 2013-14; sicrhau bod y rhaglen Datblygiad Proffesiynol a Phersonol Parhaus (CPPD) yn gost-effeithiol ac yn darparu mynediad i raglenni priodol eraill; gwella cyfleoedd i ddysgu ieithoedd ac ymwybyddiaeth ryngddiwylliannol er mwyn hwyluso symudedd a chyflogadwyedd myfyrwyr; a sicrhau bod y cwricwlwm wedi'i ddatblygu a'i fireinio'n rheolaidd, yn arbennig mewn perthynas ag amrywiaeth a chynhwysiad, symudedd rhyngwladol a phrofiad gwaith.

4.3 Yn benodol, mae'r mentrau gwelliant y sefydliad cyfan wedi hysbysu blaenoriaethau ar lefelau'r ysgolion a'r colegau, a chânt eu goruchwylio gan y Dirprwy Is-Ganghellor Profiad y Myfyrwyr a Safonau Academaidd. Clywodd y tîm bod y rhaglen CPPD o dan adolygiad cyson i sicrhau ei bod yn gost effeithiol ac yn addas i'r pwrpas, ac mae'n debygol o gael ei chryfhau gan ei lleoliad mewn Uned Gwella Dysgu newydd a fydd yn arwain yr holl gymorth dysgu ac addysgu (gwelwch baragraff 2.1.6). Mae'r gwasanaethau proffesiynol yn gyffredinol a'r blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr yn benodol yn cael ei ail alinio ar hyn o bryd i gyd-fynd orau gyda gweithrediad pellach y strategaeth *Y Ffordd Ymlaen*.

4.4 Cwblhawyd y prosiect Profi Rhagoriaeth ym mis Mai 2013 a'r canlyniad yw mabwysiadu un broses fonitro unigol (Adolygu a Gwella'n Flynyddol neu AGF) i amnewid tair proses flaenorol, ac un broses adolygu gyfnodol, y mae pob un wedi'i chefnogi gan ddata a thystiolaeth a ddarperir yn ganolog (gwelwch hefyd baragraffau 1.4.3 a 1.4.4). Mae'r trefniadau newydd wedi atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng sicrhau a gwella ansawdd. Wrth gwblhau'r ffurflen AGF, gofynnir i fyrddau ysgol nodi arferion y mae'r ysgol yn eu hystyried fel rhai sy'n 'arwain y sector' ac yn haeddu eu lledaenu ymhellach o fewn y Brifysgol, ac 'arferion effeithiol' y byddai'r ysgol yn hoffi tynnu sylw atynt i'w lledaenu ymhellach o bosib. Croesawodd y staff academaidd y syniad o fabwysiadu'r broses AGF newydd.

4.5 Disgwylir i'r prosiect Materion Asesu, a sefydlwyd yn 2011, gael ei lofnodi'n ffurfiol gan y Dirprwy Is-Ganghellor Profiad y Myfyrwyr a Safonau Academaidd ym mis Mehefin 2014 (gwelwch hefyd baragraffau 1.3 a 1.3.1). Fodd bynnag, mae nifer o'r argymhellion yn y prosiect

wedi eu mabwysiadu'n barod gan yr Ysgolion. Dywedodd y staff er eu bod yn teimlo bod gweithrediad nifer o argymhellion y prosiect yn heriol, mae ei fabwysiadu wedi annog dadl, wedi cyfrannu at ragor o gysondeb mewn prosesau ac arferion asesu, ac wedi annog gwell adborth i fyfyrwyr.

4.6 Sefydlodd y Dirprwy Is-Ganghellor Profiad y Myfyrwyr a Safonau Academaidd grŵp gorchwyl a gorffen i gwblhau'r adolygiad o'r Cynllun Tiwtoriaid Personol, a ddatblygwyd drwy'r Rhwydwaith Polisi Addysg a Myfyrwyr ac a gymeradwywyd mewn egwyddor yn y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd ym mis Ionawr 2014 i'w weithredu o 2014-15. Bydd y trefniadau diwygiedig yn rhoi profiad mwy cyson i fyfyrwyr; gan ganolbwyntio ar ddarparu cyngor academaidd a chyfeiriadau at wasanaethau cefnogi arbenigol; a gwella cyfleoedd hyfforddi i diwtoriaid personol ac adnoddau perthnasol. Dywedodd y myfyrwyr a gyfarfu'r tîm bod arferion ac ansawdd y profiad yn amrywiol.

4.7 Mae'r fenter leithoedd i Bawb, sydd i gychwyn ym mis Hydref 2014, wedi ei chynllunio fel cyfle arweiniol yn y sector i holl fyfyrwyr Caerdydd astudio iaith dramor, yn rhad ac am ddim, ar ystod o lefelau priodol. Mae'n codi i gefnogi'r dyhead yn y ddogfen *Y Ffordd Ymlaen 2012-2017* y bydd o leiaf 17 y cant o'i myfyrwyr yn cael o leiaf bedair wythnos o astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor, er na fydd cyfranogwyr yn y rhaglen 'leithoedd i Bawb' wedi eu cyfyngu i fyfyrwyr o'r fath. Mae'r Ganolfan Cyfleoedd Byd-eang a sefydlwyd yn ddiweddar yn darparu cefnogaeth ehangach i'r thema symudedd yn y ddogfen *Y Ffordd Ymlaen* trwy helpu ysgolion academaidd i weithredu strategaeth symudedd rhyngwladol y Brifysgol ac i gyrraedd targedau'r Brifysgol a'r Colegau, gan weithio'n uniongyrchol â myfyrwyr i hyrwyddo rhaglenni cyfnewid astudiaeth, ac i weinyddu rhaglenni symudedd yn gyffredinol.

4.8 Yn fwy cyffredinol, mae'r Brifysgol wedi cryfhau'r cyswllt rhwng y prosesau sicrhau ansawdd a'r prosesau gwella profiadau dysgu'r myfyrwyr, ac mae'n symud tuag at ddiwylliant o ddatblygiad a gwelliant parhaus gyda dealltwriaeth glir o rolau perthnasol yr ysgolion, y colegau a Chanolfan y Brifysgol wrth reoli'r prosesau perthnasol. Gofynnir i ddeoniaid y colegau gynhyrchu adroddiad am weithgareddau gwella yn dilyn y broses AGF.

4.9 Er bod y broses reolaidd o fonitro ac adolygu'r cwricwlwm yn rhoi cyfleoedd i'r colegau a'r Brifysgol fonitro cynnydd o ran gwella cyfleoedd i gael profiad gwaith a symudedd rhyngwladol, canolbwyntiodd y Prosiect Cwricwlwm Cynhwysol, a gwblhawyd yn 2013, yn benodol ar sicrhau bod myfyrwyr sydd ag anghenion cymorth arbennig, yn arbennig anabledau, yn gallu cyflawni eu canlyniadau dysgu'n effeithiol. Nododd y tîm bod prosiectau gwella pellach o dan arweiniad y Brifysgol wedi'u pennu ers cyhoeddi *Y Ffordd Ymlaen*. Ymatebodd y staff a'r myfyrwyr yn gadarnhaol i'r rhain, yn arbennig y prosiect amserlennu a'r prosiect cipio darlith, gydag elfennau o'r ail yn cael eu sefydlu'n barod mewn rhai Ysgolion.

4.10 Cafwyd esiampl ddiweddar o ymrwymiad y Brifysgol i wella dysgu'r myfyrwyr yn barhaus gyda'i phenderfyniad i gychwyn prosiect allweddol tair blynedd gwerth miliynau o bunnoedd, y Portffolio Addysg o Newid. Mae'r nod cyffredinol o 'wella darpariaeth academaidd a phrofiadau dysgu myfyrwyr' wedi'i gysylltu â thargedau penodol yn ymwneud â boddhad myfyrwyr. O dan arweiniad y Dirprwy Is-Ganghellor Profiad y Myfyrwyr a Safonau Academaidd, mae'r rhaglen yn bennaf yn ceisio ymestyn y defnydd a wneir o dechnoleg i wella dysgu ac i roi'r Brifysgol ar flaen y gad mewn perthynas â hyn.

4.11 Nid yw'r Brifysgol wedi datblygu adroddiad trosolwg penodol ar welliant, er bod gweithgareddau gwella'n cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Senedd, i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd ac i Fwrdd Gweithredol y Brifysgol. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'r arfer o baratoi Adroddiad Blyneddol i Fyfyrwyr ar y Cynllun Ffioedd, sy'n amlygu gwelliannau diweddar sy'n effeithio ar brofiad y myfyrwyr, ynghylch y thema 'sut mae fy ffioedd myfyriwr yn cael eu gwario'. Mae'r tîm yn **cadarnhau** penderfyniad y Brifysgol i gynhyrchu adolygiad blyneddol o welliant o 2014-15.

4.12 Daeth y tîm i'r casgliad bod yr amrywiol brosiectau a'u mabwysiadu'n arwydd clir o agwedd strategol y Brifysgol tuag at welliant. Roedd hi'n amlwg bod y prosiectau'n cael eu harwain a'u cefnogi ar lefel uwch. Roedd y staff yn hollol ymwybodol o'r prosiectau ac yn gwerthfawrogi manteision eu gweithrediad i ddysgu'r myfyrwyr, er bod canlyniadau'r prosiect Materion Asesu wedi cymryd amser i dderbyn croeso eang. Mae'r arfer, ar lefel uwch rheolwyr y Brifysgol, o fonitro cynnydd strategaethau allweddol y Brifysgol gyfan yn rheolaidd ar gyfer gwella'r cyfleoedd dysgu yn **nodwedd o arfer da**.

Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn ganllaw cyfeirio cyflym i dermau allweddol yn yr adroddiad hwn sydd efallai'n anghyfarwydd i rai darllenwyr. Mae gan y mwyafrif o dermau ddiffiniadau 'gweithredol' ffurfiol hefyd. Gallwch weld rhagor o wybodaeth yn y *Llawlyfr Adolygiad Sefydliadol: Cymru*, sydd ar gael ar ein gwefan ar: www.qaa.ac.uk/cy/ReviewsAndReports/Pages/IR-Wales.aspx.

Os byddwch eisiau diffiniadau gweithredol ffurfiol o dermau eraill, gwelwch yr adran ar sicrhau safonau ac ansawdd: www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality.

Gallwch weld esboniadau hawdd eu defnyddio o amrediad eang o dermau yn y **Rhestr termau** hirach ar wefan ASA: www.qaa.ac.uk/Pages/GlossaryCY.aspx.

Arfer da

Proses neu ffordd o weithio sydd, ym marn tîm adolygu ASA, yn gwneud cyfraniad arbennig o bositif i reolaeth darparwr addysg uwch ar safonau academiaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth addysgol. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau adolygu ASA.

Canlyniadau dysgu

Yr hyn y disgwylir i ddysgwyr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau proses o ddysgu.

Y Cod Ansawdd

Term byr am God Ansawdd Addysg Uwch y DU, sef y gyfres i'r DU gyfan o **bwyntiau cyfeirio** i ddarparwyr addysg uwch (y cytunwyd arnynt drwy ymgynghoriad gyda'r gymuned addysg uwch, a'i gyhoeddi gan ASA), sy'n nodi'r **Disgwyliadau** y mae gofyn i bob darparwr eu cyflawni.

Corff dyfarnu graddau

Darparwr addysg uwch y DU (prifysgol fel arfer) sydd â'r pŵer i ddyfarnu graddau, ac mae'r pwerau yma wedi'u cyflwyno drwy Siarter Frenhinol, neu dan Adran 76 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, neu o dan Adran 48 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Yr Alban) 1992, neu drwy Fwla Pabaidd, neu, ers 1999, drwy ddyfarniad y Cyfrin Gyngor ar gyngor ASA (mewn ymateb i geisiadau am bwerau dyfarnu graddau a addysgir, pwerau dyfarnu graddau ymchwil neu deitl prifysgol).

Credyd(au)

Ffordd o fesur a chydnabod dysgu, a ddefnyddir gan y mwyafrif o sefydliadau sy'n darparu **rhaglenni astudio** addysg uwch, wedi'i fynegi fel nifer o gredydau ar lefel benodol.

Cyfleoedd dysgu

Y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys astudiaeth a gynlluniwyd, addysgu, asesiad, cymorth academiaidd a phersonol, ac adnoddau (megis llyfrgelloedd a systemau gwybodaeth, labordai neu stiwdios).

Datganiad meincnod pwnc

Datganiad a gyhoeddwyd sy'n nodi pa wybodaeth, dealltwriaeth, galluoedd a sgiliau a ddisgwylir gan y rheiny sy'n graddio ymhob un o'r prif feysydd astudio (yn ymwneud gan fwyaf â graddau baglor), ac sy'n esbonio beth sy'n rhoi ei gydlynid a'i hunaniaeth i'r ddisgyblaeth arbennig honno.

Diffiniad gweithredol

Diffiniad ffurfiol o derm, sy'n sefydlu yn union beth mae ASA yn ei olygu wrth ei ddefnyddio mewn adolygiadau ac adroddiadau.

Disgwyliadau

Datganiadau yn y **Cod Ansawdd** sy'n nodi beth mae holl ddarparwyr addysg uwch y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain ac felly gan ei gilydd, a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt.

Dyfarniad dwbl neu ddyfarniad deuol

Rhoi dyfarniadau (a thystysgrifau) ar wahân ar gyfer yr un **rhaglen** gan ddau **gorff dyfarnu graddau** sydd wedi darparu'r rhaglen astudio sy'n arwain atynt ar y cyd. Gweler hefyd **dyfarniad lluosog**.

Dyfarniad

Cymhwyster, neu gredyd academaidd, wedi'i gyflwyno i gydnabod yn ffurfiol bod myfyriwr wedi cyflawni'r **canlyniadau dysgu** a fwriedir a phasio'r asesiadau sy'n ofynnol i gwrdd â'r safonau academaidd a osodir ar gyfer **rhaglen** neu uned astudio.

Dyfarniadau lluosog

Trefniant lle mae tri **chorff dyfarnu graddau** neu fwy yn darparu, gyda'i gilydd, un **rhaglen** (neu raglenni) a ddarperir ar y cyd sy'n arwain at **ddyfarniad** ar wahân (a thystysgrif ar wahân) gan bob un o'r cyrff dyfarnu. Mae'r trefniant yr un fath ag ydyw ar gyfer **dyfarniadau dwbl/deuol**, ond gyda thri chorff dyfarnu neu fwy'n cymryd rhan.

Dysgu cyfunol

Dysgu a ddarperir drwy nifer o wahanol ddulliau, sydd fel arfer yn cynnwys dysgu wyneb yn wyneb ac e-ddysgu (gweler **dysgu gyda chymorth technoleg**).

Dysgu gyda chymorth technoleg (neu e-ddysgu)

Dysgu a ddarperir neu a gefnogir drwy ddefnyddio technoleg.

Dysgu hyblyg a dosranedig

Rhaglen neu fodiwl nad yw'n gofyn i'r myfyriwr fynychu dosbarthiadau neu ddigwyddiadau ar amseroedd ac mewn lleoliadau penodol. Gweler hefyd **dysgu o bell**.

Dysgu o bell

Cwrs astudio nad yw'n cynnwys cysylltiad wyneb yn wyneb rhwng myfyrwyr a thiwtoriaid ond, yn lle hynny, mae'n defnyddio technoleg megis y rhyngwyd, mewnrwydi, cyfryngau darlledu, CD-ROM a fideo, neu ddulliau traddodiadol o ohebu - dysgu 'o bell'. Gweler hefyd **dysgu cyfunol**.

e-ddysgu

Gweler dysgu gyda chymorth technoleg.

Ehangu cyfranogaeth

Cynyddu cyfranogaeth pobl o amrediad ehangach o gefndiroedd mewn addysg uwch.

Fframwaith cymwysterau addysg uwch

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau cenedlaethol ac yn disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwylir gan ddalwyr y prif fathau o gymhwyster ar bob lefel, a thrwy hynny helpu darparwyr addysg uwch i gynnal safonau academaidd. Mae ASA yn cyhoeddi'r fframweithiau dilynol: *Y Fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a'r *Fframwaith ar gyfer cymwysterau sefydliadau addysg uwch yn yr Alban* (FHEQIS).

Fframwaith

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig. Gweler hefyd **fframwaith cymwysterau addysg uwch**.

Gwelliant

Y broses y mae darparwyr addysg uwch yn ei defnyddio i wella ansawdd y ddarpariaeth yn systematig a'r ffyrdd y mae addysg myfyrwyr yn cael ei chefnogi. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol yn ein prosesau adolygu.

Gwybodaeth gyhoeddus

Gwybodaeth sydd ar gael yn rhydd i'r cyhoedd (y cyfeirir ati weithiau fel bod 'yn eiddo i'r cyhoedd').

Manylebau rhaglen

Datganiadau wedi'u cyhoeddi am y **canlyniadau dysgu** y bwriedir eu sicrhau o'r rhaglenni astudio, yn cynnwys gwybodaeth am dulliau dysgu ac addysgu, dulliau cymorth ac asesu, a sut mae unedau unigol yn berthnasol i lefelau cyflawniad.

Pwyntiau cyfeirio

Datganiadau a chyhoeddiadau eraill sy'n sefydlu meini prawf y gellir mesur perfformiad yn eu herbyn.

Rhaglen (astudio)

Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster.

Rhith-amgylchedd dysgu (RhAD)

Mewnwyd neu wefan ryngweithiol sydd wedi'i diogelu gan gyfrinair (cyfeirir at hwn hefyd fel plattform neu ryngwyneb defnyddiwr) sy'n rhoi mynediad yn electronig i **gyfleoedd dysgu**. Gallai'r rhain gynnwys adnoddau megis llawlyfrau cwrs, gwybodaeth a rhestrau darllen; blogiau, byrddau neges a fforymau; darlithoedd wedi'u recordio; a/neu gyfleusterau ar gyfer seminarau ar-lein (gweminarau).

Safon academiaidd trothwy

Y lefel isaf o gyflawniad sy'n dderbyniol y mae'n rhaid i fyfyrwr ei dangos er mwyn bod yn gymwys i dderbyn **dyfarniad** academiaidd. Mae safonau academiaidd trothwy wedi'u disgrifio yn y **fframweithiau** cenedlaethol a'r **datganiadau meincnod pwnc**.

Safonau academiaidd

Y safonau a osodir gan **gyrff dyfarnu graddau** ar gyfer eu cyrsiau (rhaglenni a modiwlau) a'r safonau a ddisgwylir ar gyfer eu dyfarniadau. Gweler hefyd **safon academiaidd trothwy**.

QAA807 - R3416 - Gor 2014

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2014
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB

Ffôn 029 2048 5963 (Cymraeg) 01452 557000 (English)
Ebost enquiries@qaa.ac.uk
Gwefan www.qaa.ac.uk

Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786